Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog

## Rheolau Sefydlog 12.41A-H Dros Dro ar Bleidleisio Drwy Ddirprwy

Gorffennaf 2022

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae’r adroddiad hwn yn argymell diwygio Rheol Sefydlog 12.41H i estyn effaith Rheolau Sefydlog 12.41A-H dros dro presennol tan 1 Ebrill 2023, tra bod adolygiad llawn o bleidleisio drwy ddirprwy yn cael ei gynnal.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# 1. Cefndir

**1.** Ar hyn o bryd, mae gan y Senedd Reolau Sefydlog sy'n ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy i Aelodau sydd ar absenoldeb rhiant, a nodir yn Rheolau Sefydlog 12.41A-H (Atodiad A). Yn niffyg pleidlais gan y Senedd i gadw, i estyn neu i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, daw'r darpariaethau hyn i ben yn awtomatig ar 1 Awst 2022.

# 2. Pleidleisio drwy ddirprwy

**2.** Cytunodd Pwyllgor Busnes y Bumed Senedd i gyflwyno pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant mewn dau gam. Yn gyntaf, ar gyfer absenoldeb rhiant ar sail dros dro ac fel prawf, ac yn ail ar gyfer y posibilrwydd o'i estyn i salwch tymor hir a chyfrifoldebau gofalu eraill yn y dyfodol.

**3.** Dechreuodd y cyfnod prawf ar yr un pryd â dechrau pandemig Covid-19. Yn wreiddiol, roedd y Rheolau Sefydlog i fod i ddod i ben ar ddiwedd y Bumed Senedd, ond cawsant eu hestyn wedyn tan 1 Awst 2022.

**4.** Hyd yma, mae dau Aelod wedi pleidleisio drwy ddirprwy yn unol â Rheol Sefydlog 12.41A: yn y Bumed Senedd, trefnodd Bethan Sayed AS i Dai Lloyd AS weithredu fel ei dirprwy rhwng 8 Gorffennaf 2020 ac 8 Ionawr 2021; ac yn y Chweched Senedd, trefnodd Adam Price AS i Siân Gwenllian AS weithredu fel ei ddirprwy rhwng 7 Mehefin a 18 Gorffennaf 2021.

# 3. Adolygu

**5.** Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Busnes adolygiad o argaeledd parhaus y gallu i gymryd rhan o bell ym musnes y Senedd, gan gynnwys pleidleisio o bell, fel rhan o adolygiad o'r gweithdrefnau dros dro eraill yn Rheol Sefydlog 34 (Gweithdrefnau Brys).

**6.** Yn sgil natur cydgysylltiedig penderfyniadau ynghylch trefniadau pleidleisio yn y dyfodol, penderfynwyd y byddai adolygiad o bleidleisio drwy ddirprwy yn dilyn hyn, oherwydd gallai unrhyw ddarpariaeth pleidleisio o bell yn y dyfodol fod wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch a ddylid cadw'r cynllun i bleidleisio drwy ddirprwy neu ei estyn o bosibl.

**7.** Gan fod y Pwyllgor Busnes erbyn hyn wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â threfniadau pleidleisio a chyfranogiad yn y dyfodol, mae'r

Pwyllgor wedi cytuno i amserlennu ystyriaeth lawn o ddarpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer hydref 2022 a gwanwyn 2023. Er mwyn caniatáu i’r trefniadau presennol barhau yn ystod y cyfnod hwn, mae angen diwygio Rheol Sefydlog 12.41H i estyn y dyddiad dod i ben o 1 Awst 2022 i 1 Ebrill 2023.

**8.** Mae adolygiadau tebyg o ddarpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy yn cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig a byddai’r amserlen arfaethedig newydd yn caniatáu i’r Pwyllgor Busnes ystyried eu canfyddiadau hwy fel rhan o’i broses adolygu.

# 4. Penderfyniad

**9.** Ar 5 Gorffennaf 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig newidiadau i’r Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A – Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 12.41A-H, a nodiadau esboniadol

## RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

| Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau | | Cadw'r pennawd |
|---|---|---|
| 12.41 | Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 12.41A-H, rhaid i Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol ac yn bersonol (ond nid yw’n ofynnol iddynt bleidleisio). | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.14A | Caiff Aelod, oherwydd absenoldeb o'r Senedd yn sgil absenoldeb rhiant, drefnu bod Aelod arall yn bwrw pleidlais ar ei ran fel dirprwy (pleidlais drwy ddirprwy). | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41B | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 12.41C, caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy ar holl fusnes y Cyfarfod Llawn (gan gynnwys pleidleisiau cyfrinachol o dan Reol Sefydlog 6 a Rheol Sefydlog 17) a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41C | Ni chaniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41D | Rhaid i bleidlais drwy ddirprwy beidio â chyfrif tuag at y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn pleidlais at ddibenion Rheol Sefydlog 12.46. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41E | Dim ond os yw'r Llywydd wedi ardystio bod yr Aelod y mae'r bleidlais i’w bwrw ar ei ran yn gymwys o dan delerau | Cadw'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | Rheol Sefydlog 12.41A y caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy. | Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41F | Rhaid dangos pleidlais a gafodd ei bwrw gan ddirprwy yn glir yn y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn neu yng nghofnodion Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41G | Rhaid i'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau o dan Reol Sefydlog 6.17 ar weithredu'r drefn pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth |
| 12.41H | Bydd Rheolau Sefydlog 12.41A – 12.41H, a'r cyfeiriadau atynt yn Rheolau Sefydlog 12.41 a 17.48, yn peidio â chael effaith ar ~~1 Awst 2022.~~1 Ebrill 2023. | **Diwygio Rheol Sefydlog**<br>Caiff y darpariaethau dros dro ar bleidleisio drwy ddirprwy eu hestyn i 1 Ebrill 2023, er mwyn caniatáu amser i'r Pwyllgor Busnes newydd gynnal adolygiad o'u gweithrediad. |

# Atodiad B – Rheolau Sefydlog 6, 12 ac 17, fel y'i diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau

12.41 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 12.41A-H, rhaid i Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol ac yn bersonol (ond nid yw’n ofynnol iddynt bleidleisio).

12.14A Caiff Aelod, oherwydd absenoldeb o'r Senedd yn sgil absenoldeb rhiant, drefnu bod Aelod arall yn bwrw pleidlais ar ei ran fel dirprwy (pleidlais drwy ddirprwy).

12.41B Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 12.41C, caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy ar holl fusnes y Cyfarfod Llawn (gan gynnwys pleidleisiau cyfrinachol o dan Reol Sefydlog 6 a Rheol Sefydlog 17) a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan.

12.41C Ni chaniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

12.41D Rhaid i bleidlais drwy ddirprwy beidio â chyfrif tuag at y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn pleidlais at ddibenion Rheol Sefydlog 12.46.

12.41E Dim ond os yw'r Llywydd wedi ardystio bod yr Aelod y mae'r bleidlais i’w bwrw ar ei ran yn gymwys o dan delerau Rheol Sefydlog 12.41A y caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy.

12.41F Rhaid dangos pleidlais a gafodd ei bwrw gan ddirprwy yn glir yn y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn neu yng nghofnodion Pwyllgor y Senedd Gyfan.

12.41G Rhaid i'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau o dan Reol Sefydlog 6.17 ar weithredu’r drefn pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer absenoldeb rhiant.

12.41H Bydd Rheolau Sefydlog 12.41A – 12.41H, a'r cyfeiriadau atynt yn Rheolau Sefydlog 12.41 a 17.48, yn peidio â chael effaith ar 1 Ebrill 2023.